At Weinidogion Cymru,

**Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Yn unol â’r dyletswyddau o dan adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, dyma adroddiad blynyddol Cyngor Abertawe ar gyfer y flwyddyn 2020-21.

| | |
|---|---|
| Y camau a gymerwyd i hybu teithiau teithio llesol | Parhaodd Cyngor Abertawe i gynnal ei ddarpariaeth ar gyfer mapiau papur ac electronig o'i rwydwaith teithio llesol. Mae'r mapiau'n parhau i wella'r ddarpariaeth wybodaeth ar gyfer lleoliadau'r llwybrau teithio llesol sydd ar gael ar draws ardal Dinas a Sir Abertawe.<br>Roedd yr ymgyrch i newid ymddygiad tuag at deithio llesol, Llwybrau Bae Abertawe, wedi parhau i ddarparu gwybodaeth i weithleoedd, aelodau'r cyhoedd a grwpiau er mwyn cefnogi'r gwaith o sicrhau bod pobl yn defnyddio cyfleoedd teithio llesol ac yn ymwybodol ohonynt. Roedd cynnwys cyfryngau cymdeithasol wedi parhau i gael ei ddatblygu i gefnogi negeseuon teithio llesol a pharhau i sicrhau bod dros 900 o bobl wedi tanysgrifio i dderbyn y diweddaraf am yr ymgyrch.<br>Datblygwyd map parcio beiciau newydd i gyfeirio defnyddwyr at fannau parcio ar draws y rhwydwaith.<br><br>Datblygwyd rhaglen ymgysylltu dan y teitl 'Gweithle Teithio Llesol' i weithio gyda gweithleoedd i ddarparu gwybodaeth am y ffordd orau o annog a chefnogi gweithwyr i ddewis teithio llesol ar gyfer cymudo a theithio mewn perthynas â gwaith.<br><br>Defnyddiwyd ymgyrch Llwybrau Abertawe hefyd i gefnogi’r cyfleu opsiynau teithio llesol i breswylwyr lleol yn ystod cyfnodau estynedig o gyfyngiadau symud oherwydd Coronafeirws, pan roedd cludiant |

| | |
|---|---|
| | cyhoeddus yn gweithredu gydag amserlen lai a llai o wasanaethau. |
| Y camau a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig | **CRONFA TEITHIO LLESOL**<br>Cyflwynwyd cynigion i'r Gronfa Teithio Llesol ar gyfer nifer o gynlluniau, fel a restrir isod:<br><br>***Llwybrau cyswllt canol y ddinas***<br>• Pont Ganolog Abertawe<br>• Carmarthen Road (Cam 1)<br>• Llwybr cyswllt Gogleddol Townhill<br>• Townhill Road<br>• Estyniad llwybr defnydd a rennir San Helen<br>***Llwybrau cyswllt Rhwydwaith Sgeti a Mayals***<br>• Llwybr cyswllt Mayals Road<br>• Llwybrau cyswllt Parc Sgeti<br>• Llwybr cyswllt yr Olchfa<br>***Llwybr cyswllt Pontarddulais***<br>• Llwybr cyswllt Pontarddulais (Cam 1)<br>• Llwybr cyswllt Parc Coed Bach<br><br>**CRONFA TRAFNIDIAETH LEOL**<br>Cyflwynwyd ceisiadau ar gyfer y prosiectau canlynol a oedd yn cynnwys cyflwyno isadeiledd teithio llesol fel rhan o'r cynllun ehangach:<br>• Pont Baldwin<br>• Cyffordd Dyfaty |
| Costau a ysgwyddir ar gyfer cyfleusterau a llwybrau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig a gynhaliwyd yn y flwyddyn ariannol lawn flaenorol | **CRONFA TEITHIO LLESOL**<br>O'r cynlluniau a restrir uchod, roedd nifer yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid ar gyfer cyflwyno, sef y canlynol:<br><br>***Llwybrau cyswllt canol y ddinas \| £2,467,500***<br>• Pont Ganolog Abertawe<br>• Llwybr cyswllt Gogleddol Townhill (rhan ohono)<br>• Townhill Road<br>• Estyniad llwybr defnydd a rennir San Helen |

| | |
|---|---|
| | ***Llwybrau cyswllt Rhwydwaith Sgeti a Mayals \| £1,877,000***<br>• Llwybr cyswllt Mayals Road<br>• Llwybrau Cyswllt Parc Sgeti<br>• Llwybr cyswllt yr Olchfa<br><br>**CYLLID Y CYNGOR**<br>Mae Cyngor Abertawe wedi gwario £22,000 ar gynnal a chadw llwybrau ar draws y rhwydwaith presennol. |

Yn ogystal â’r uchod, mae’r wybodaeth a ganlyn yn rhoi trosolwg o’r seilwaith sydd wedi cael ei weithredu yn ystod y flwyddyn flaenorol:

| | |
|---|---|
| Gwariant dangosol ar gyfer cyfleusterau a llwybrau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig sy’n cael eu cyllido neu eu cyllido’n rhannol gan drydydd partïon. | Dim. |
| Hyd llwybrau newydd:<br><br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Cyd-ddefnyddio | - Mae'r llwybrau a ddisgrifir uchod wedi cyflwyno 8.2km o lwybrau defnydd a rennir newydd yn 2020/21. |
| Hyd y llwybrau wedi eu gwella:<br><br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Cyd-ddefnyddio | - Mae'r llwybrau a ddisgrifir uchod wedi cyflwyno 400m o lwybrau defnydd a rennir gwell yn 2020/21. |
| Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell | - Llochesi beiciau, stondinau atgyweirio a phympiau beiciau, loceri diogel ar gyfer beiciau. |

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

| |
|---|
| Cynigiwyd y fenter 'Beicio i'r Gwaith' i'r rheini sy'n gweithio yn y cyngor yn ystod haf 2020. |

Rwy’n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar-lein ac y gellir ei gael ar ffurf copi caled ar gais, yn unol â Chanllawiau statudol y Ddeddf Teithio Llesol (argraffiad 2021).

| | |
|---|---|
| Llofnod y Prif Weithredwr: |  |
| Enw’r Prif Weithredwr: | Phil Roberts |
| Dyddiad cyflwyno i Weinidogion Cymru: | 30/09/21 |